

Twbercwlosis buchol mewn anifeiliaid anwes dof

Beth y mae hyn yn ei olygu I chi

Cynnwys

1. I bwy mae'r daflen hon
2. Beth yw twbercwlosis?
3. Sut y gall fy anifail anwes gael TB?
4. Sut y byddaf yn gwybod a oes gan fy anifail anwes TB a beth y gallaf ei wneud i wneud yn siŵr?
5. Risgiau i fi, fy nheulu ac anifeiliaid eraill
6. Rheoli haint TB yn eich anifail anwes
7. Beth fydd yn digwydd nesaf?
8. Anifeiliaid da byw a gedwir fel anifeiliaid anwes
9. Rhagor o wybodaeth

1. I bwy mae'r daflen hon

Diben y daflen hon yw rhoi cyngor i berchenogion anifeiliaid anwes dof, megis cathod a chŵn, yr amheuir bod ganddynt haint twbercwlosis neu ei fod wedi'i gadarnhau yn sgil presenoldeb *Mycobacterium bovis* (*M. bovis*, cyfrwng achosol twbercwlosis buchol). Weithiau cedwir anifeiliaid da byw megis geifr, camelidau (alpacas a lamas), moch, ceffylau, asynnod a defaid fel anifeiliaid anwes, ond os caiff yr anifeiliaid hyn eu heintio ag *M. bovis*, cânt eu rheoli fel anifeiliaid fferm (gweler adran olaf y daflen hon). Hefyd, gweler y daflen: 'Lleihau'r risg o haint *M. bovis* dynol – gwybodaeth i ffermwyr' sydd ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/publications/mycobacterium-bovis-mbovis-reducing-the-risk-of-human-infection>

2. Beth yw twbercwlosis?

Mae twbercwlosis (TB) yn glefyd heintus cronig, anadlol yn bennaf a achosir gan grŵp o facteria yn y cymhlyg *Twbercwlosis mycobacteriwm*. Gall TB effeithio ar bron bob mamal gwaed cynnes, gan gynnwys anifeiliaid da byw, bywyd gwyllt, anifeiliaid anwes a phobl. Un o gyfryngau achosol TB yw *M. bovis*. Gelwir y clefyd a achosir gan *M. bovis* mewn gwartheg yn TB buchol yn aml, am fod gwartheg yn anifeiliaid lletyol naturiol ar gyfer *M. bovis*, ond gall y bacteriwm heintio'r rhan fwyaf o famaliaid.

Er bod pobl hefyd yn gallu dioddef o TB a achosir gan *M. bovis*, achosir y mwyafrif helaeth o achosion TB dynol gan fycobacteriwm cysylltiedig ond gwahanol a elwir yn *M. tuberculosis*. Ym Mhrydain Fawr, mae TB buchol i'w ganfod yn bennaf yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, De-orllewin Lloegr a Chymru, ond gall moch daear yn y rhanbarthau hynny, yn ogystal â rhywogaethau bywyd gwyllt eraill, gael eu heintio ag *M. bovis*. Gall mathau eraill o fycobacteria hefyd achosi haint tebyg i TB mewn anifeiliaid. Bob blwyddyn, caiff miloedd o wartheg ddiagnosis o TB o ganlyniad i raglen cadw gwylidwriaeth a rheoli clefyd orfodol, ond nifer fach

yn unig o heintiau *M. bovis* mewn anifeiliaid anwes, cathod yn bennaf, a gofnodir. Prin yw'r achosion a gofnodir o haint *M. bovis* mewn cŵn. Weithiau, gall cathod, cŵn ac anifeiliaid anwes eraill ddatblygu TB a achosir gan fycobacteria eraill ond mae'r daflen gynghori hon yn ymwneud yn bennaf â TB a achosir gan *M. bovis*. Mae unrhyw gyfeiriadau eraill at 'TB' yn y daflen hon yn cyfeirio at haint ag *M. bovis*.

3. Sut y gall fy anifail anwes gael TB?

Gall anifeiliaid anwes gael eu heintio mewn nifer o ffyrdd sy'n cynnwys llyncu (drwy'r geg), er enghraifft drwy yfed llaeth buwch heintiedig heb ei basteureiddio neu fwyta carcasau anifeiliaid heintiedig; ac erosolau (drwy fewnanadlu) a allai godi o gyswllt agos ag anifeiliaid fferm, bywyd gwyllt neu anifeiliaid anwes heintiedig eraill. Gall anifeiliaid hefyd gael eu heintio drwy glwyfau cnoi, naill ai am eu bod wedi cael eu cnoi gan anifail heintiedig neu drwy glwyf yn cael ei heintio gan facteria yn yr amgylchedd.

4. Sut y byddaf yn gwybod a oes gan fy anifail anwes TB a beth y gallaf ei wneud i gadarnhau hynny?

Gall haint TB mewn anifeiliaid anwes achosi clefyd difrifol hirsefydlog. Os yw eich anifail anwes wedi'i heintio â TB, gall ddangos arwyddion o'r clefyd sy'n cynnwys pesychu, gwichian a/neu golli pwysau. Gall lymphiau, crawniadau neu glwyfau cnoi nad ydynt yn gwella, yn enwedig o amgylch y pen a'r gwddf, hefyd fod wedi'u hachosi gan TB ac maent i'w gweld amlaf mewn cathod heintiedig. Nid yw arwyddion clinigol haint TB yn unigryw a gallant fod yn debyg i heintiau eraill. Os yw eich milfeddyg yn amau bod gan eich anifail anwes TB, profion labordai yw'r unig ffordd bosibl o gadarnhau'r haint.

Yn yr Alban, bydd milfeddygon preifat yn anfon samplau a gymerwyd o gathod a chŵn yr amheuir bod TB ganddynt i labordai preifat a fydd yn cynnal archwiliadau a phroffion labordy priodol y codir tâl arnoch amdanynt. Os yw'r labordy preifat yn amau *M. bovis*, bydd yn parhau i archwilio ymhellach drwy gyflwyno deunydd i labordy'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yn Weybridge er mwyn ei nodi a'i gadarnhau ar draul y llywodraeth.

Yng Nghymru, gall milfeddygon preifat wneud cais am archwiliadau labordy i anifeiliaid anwes yr amheuir bod ganddynt TB yn un o labordai APHA neu Ganolfan Gwyddor Filfeddygol Cymru, Aberystwyth. Lle amheuir bod arwyddion clinigol o TB i'w gweld yn yr anifail byw, Llywodraeth Cymru fydd yn talu pob cost. Ar gyfer achosion eraill mewn cŵn a chathod, lle gall TB fod yn un achos posibl o farwolaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn talu am gostau prawf meithrinad yn unig, nid y post-mortem, y codir tâl arnoch ar ei gyfer yn y rhan fwyaf o achosion. Ni chynghorir milfeddygon preifat i gynnal post-mortem eu hunain. Os anfonwyd samplau i labordy preifat ac amheuir bod gan yr anifail TB, gallant anfon samplau i'w meithrin i APHA Weybridge er mwyn cadarnhau'r clefyd. Yn yr achos hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn talu am y costau meithrin yn unig.

Yn Lloegr, codir tâl am broffion labordy o samplau (gan gynnwys prawf meithrinad er mwyn cadarnhau TB buchol) a gymerwyd o anifeiliaid anwes yr amheuir bod ganddynt TB yn labordai lleol APHA a'r labordy canolog yn Weybridge oni chedwir yr anifail anwes ar fferm gyda da byw sy'n agored i TB buchol. Fel arall, gall eich milfeddyg ddewis anfon samplau o'ch anifail anwes i'w profi mewn labordy preifat lle codir tâl. Mae'n debygol y bydd eich milfeddyg eich hun yn codi tâl arnoch am gasglu a chyflwyno samplau priodol o'ch anifail anwes i'w hanfon i labordy ar gyfer profion TB. Nid yw casglu na chyflwyno samplau o'ch anifail anwes ar gyfer prawf TB yn orfodol ac ni ellir ei wneud heb eich caniatâd.

5. Risgiau i fi, fy nheulu ac anifeiliaid eraill

Gall diagnosis TB yn eich anifail anwes wneud i chi deimlo'n ofidus, ond bydd eich swyddfa APHA a'ch Tîm Diogelu Iechyd Lleol, yn ogystal â'ch milfeddyg eich hun, yn rhoi cyngor a chymorth i chi ar sail eich amgylchiadau unigol. Gall TB ledaenu o anifeiliaid i bobl ond ystyrir bod y risg y cewch chi neu'ch teulu eich heintio gan eich anifail anwes yn isel iawn.

Os caiff TB a achoswyd gan *M. bovis* ei gadarnhau yn eich anifail anwes, bydd APHA yn rhoi gwybod i'ch awdurdod iechyd lleol fel y gellir archwilio i unrhyw risg i iechyd pobl sydd wedi dod i gysylltiad â'r anifail anwes. Gan ddibynnu ar natur clefyd yr anifail a'r graddau y daeth i gysylltiad â phobl, gellir cynnig prawf sgrinio TB i berchenogion neu ffrindiau a theulu sy'n dod i gysylltiad agos â'r anifail anwes heintiedig. Mae rhagor o wybodaeth am sgrinio TB mewn pobl ar gael yn:

<https://www.gov.uk/guidance/tuberculosis-screening>.

6. Rheoli haint TB yn eich anifail anwes

Mae dewis trin neu ewthaneiddio (difa'n ddyngarol) eich anifail anwes os bydd yn datblygu clefyd TB yn benderfyniad i chi ei wneud gan ymgynghori â'ch milfeddyg (oni bai ei fod yn un o'r rhywogaethau o anifeiliaid da byw a gedwir fel anifeiliaid anwes a ddisgrifiwyd uchod a drinnir yn yr un ffordd â da byw fferm). Fodd bynnag, cyn penderfynu rhoi cynnig ar drin eich anifail anwes, mae angen ystyried nifer o ffactorau pwysig:

- Nid oes unrhyw gyffuriau wedi'u trwyddedu yn y DU ar gyfer trin anifeiliaid anwes ar gyfer TB. Nid yw'r cyffuriau a fyddai'n cael eu defnyddio i drin eich anifail anwes wedi bodloni profion diogelwch sy'n benodol i anifeiliaid yn y DU ac felly efallai na fyddant yn gweithio a gallant beryglu iechyd eich anifail anwes.
- Mae'r driniaeth yn golygu defnydd estynedig o sawl cyffur, a gall fod yn anodd iawn eu rhoi i anifeiliaid anwes. Gall hyn olygu na chaiff y dos sydd ei angen ar gyfer triniaeth lwyddiannus ei roi a bod risg o ddatblygu mathau o facteria ag ymwrthedd i wrthfotig sydd o bryder i iechyd pobl ac anifeiliaid. Gweler [amwy o wybodaeth am ymwrthedd gwrthficrobaidd yma](#).
- Gall rhoi dos annigonol i'ch anifail anwes olygu ei fod wedi'i heintio o hyd, yn aml heb unrhyw arwyddion o glefyd. Yn yr achos hwn, byddai'r risg o haint i bobl ac anifeiliaid anwes sy'n dod i gysylltiad â'r anifail anwes yn parhau.

7. Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd eich milfeddyg, eich swyddfa APHA a'ch Tîm Diogelu Iechyd Lleol yn rhoi cyngor i chi ar y ffordd orau o leihau'r risg o gael eich heintio gan eich anifail anwes.

Efallai y byddwch hefyd yn cael canllawiau ar y risgiau i'ch anifail anwes ac i anifeiliaid eraill, a byddwch yn cael cymorth i wneud unrhyw benderfyniadau angenrheidiol.

Bydd angen i'ch swyddfa APHA leol hefyd ystyried y goblygiadau i anifeiliaid eraill a all fod wedi dod i gysylltiad â'ch anifail anwes. Mae'n bosibl y bydd angen strategaeth rheoli clefyd briodol, yn enwedig os oes gennych dda byw ar y safle neu os ydych yn cadw geifr, camelidau, moch neu wŷn fel anifeiliaid anwes. Lle mae da byw a allai gael TB ar yr un safle ag anifail anwes heintiedig, bydd milfeddyg APHA yn cynnal archwiliad TB ac yn rhoi cyngor. Gellir gofyn i chi brofi'r anifeiliaid eraill hyn i weld a ydynt wedi'u heintio â TB a gellir rhoi cyfyngiadau ar waith i'w hatal rhag cael eu symud oddi ar eich safle neu rhag dod i gysylltiad ag anifeiliaid eraill nes bod APHA wedi cadarnhau nad ydynt wedi'u heintio. Fel arfer, caiff gwartheg yng nghymdogaeth anifail anwes sydd wedi cael diagnosis o haint *M. bovis* eu profi hefyd.

8. Anifeiliaid da byw a gedwir fel anifeiliaid anwes

Os bydd anifail da byw a gedwir fel anifail anwes yn cael ei heintio ag *M. bovis*, caiff ei drin fel da byw a bydd y dull penodol o reoli clefyd a ddefnyddir yn dibynnu ar y rhywogaeth dan sylw. Lle y canfyddir haint *M. bovis* mewn anifeiliaid da byw, byddai'r anifail heintiedig, os yw'n fyw o hyd, yn cael ei ladd, ac fel arfer byddai anifeiliaid eraill yn y praidd neu'r fuches yn cael eu profi ar gyfer haint TB. Byddai hysbysiad o gyfyngiad cyfreithiol rwymol (TN02) yn cael ei gyflwyno i'r perchennog, os yw'n briodol:

- er mwyn ei atal rhag symud anifeiliaid eraill, a all gael eu heintio â TB, i'w safle neu oddi arno
- er mwyn cadw ei anifeiliaid dan reolaeth er mwyn atal cysylltiad ag anifeiliaid eraill a allai gael yr haint ar safleoedd cyfagos.

Publication reference number: AG-TBYP-01

Published: Updated Chwefror 2017)

© Crown copyright 2014

You may re-use this information (not including logos) free of charge in any format or medium, under the terms of the Open Government Licence. To view this licence, visit <http://www.nationalarchives>.